

## **Pwnc dan Sylw –Staying Home Alone**

**Lefel 2** (yn cynnwys Uned 1 ac Uned 3 o Wobr QCF ar gyfer y lefelau Diploma)

**Amser** - Hyfforddiant dros ddau ddiwrnod

**Nodau ac amcanion** Cynlluniwyd y rhaglen hyfforddi hon yn benodol ar gyfer gweithwyr sy'n rhoi gofal i bobl â dementia yn eu cartrefi.

Bwriad yr hyfforddiant yw rhoi i weithwyr gofal cartref

- gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddementia
- fel y gallant edrych heibio'r label 'dementia' ac adnabod yr unigolyn
- codi ymwybyddiaeth o'r teimladau a all fod ynghlwm wrth y syniad o ddementia yn hanes yr unigolyn a'r gweithiwr gofal
- dysgu a chanfod ffyrdd ymarferol o reoli anawsterau a all godi wrth weithio gydag unigolyn â dementia.

### **Cwrs/rhaglen ddysgu**

#### Cynnwys y cwrs

Dementia neu fod yn anghofus?

- Dod i adnabod rhywun â dementia.
- Gweithio gyda rhywun â dementia.
- Cynnal hunaniaeth
- Llyfr gwaith - cynllunio camau gweithredu a gwerthuso dysgu. Pam yr ydym yn ymddwyn fel y gwnawn.
- Deall ymddygiad.
- Cyfathrebu effeithiol - pethau y dylid eu gwneud a phethau y dylid eu hosgoi.
- Deall ymddygiad - mapio'r rhesymau.
- Llyfr gwaith - cynllunio camau gweithredu a gwerthuso dysgu.

Risg.

- Chwilio am y rhesymau.
- Rheoli risg
- Senarios Achos
- proses rheoli risg.

-Llyfr gwaith - cynllunio camau gweithredu a gwerthuso dysgu.

Byddwn yn casglu'r llyfrau gwaith ar ddiwedd y sesiwn olaf i'w marcio. Wedyn cânt eu hanfon yn ôl i'r adran hyfforddi i'w cofnodi ac yna eu dosbarthu i'r rhai sy'n bresennol.

#### Deunyddiau hyfforddi

- Staying Home Alone: Working in the community with older people who have dementia. Annette McDonald (2001). Pavilion
- Llawlyfr cwrs - Home Alone: Evidence of Learning. DSDC Bangor (2008)

Mae amrywiaeth o ddulliau addysgu'n cael eu defnyddio yn y sesiynau. Darlithoedd, taflunydd uwch ysgwydd, PowerPoint, trafodaeth grŵp, gwaith mewn grwpiau bach, taflenni, astudiaethau achos, portreadau, cwis, ymarferion arbrofol, cyflwyno, llyfr gwaith, Cryno-ddisgiau.

Cost ddewisol achredu ar gyfer Lefel 1 a 2 yw £25.00